



Health and Care
Research Wales
Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth
Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru

**Adolygiad cyflym o
effeithiolrwydd,
effeithlonrwydd a
derbynioldeb canolfannau
llawfeddygol wrth gefnogi
gweithgaredd gofal wedi'i
gynllunio.**

Mawrth 2023



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Adolygiad Cyflym

Teitl yr Adroddiad | Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd
a derbynioldeb canolfannau llawfeddygol wrth gefnogi gweithgaredd
gofal wedi'i gynllunio

Rhif yr Adroddiad: HCRWEC_RR0004 (Mawrth 2023)
Math o Adroddiad | Adolygiad Cyflym – Adroddiad Llawn
Dyddiad Cwblhau | Mawrth 2023

MANYLION YR ASTUDIAETH

Adolygiad a gynhaliwyd gan | Iechyd Cyhoeddus Cymru

Adolygiad wedi'i gyflwyno i'r Ganolfan Dystiolaeth ar | 4 Ebrill 2023

Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid | 13 Mawrth 2023

Adroddiad Adolygiad Cyflym a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Dystiolaeth | Ebrill 2023

Tîm Adolygu

- Chukwudi Okolie
- Jordan Everitt
- Alesha Wale
- Helen Morgan
- Toby Ayres
- Hannah Shaw

Tîm y Ganolfan Dystiolaeth | Ruth Lewis, Alison Cooper, Adrian Edwards a Micaela Gal
fu'n ymwneud â drafftio'r crynodeb o'r prif bwyntiau a golygu.

Dylid cyfeirio at yr adolygiad hwn fel | RR0004. Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru_ Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a derbynioldeb
canolfannau llawfeddygol wrth gefnogi gweithgaredd gofal wedi'i gynllunio. Mawrth 2023.

Ymwadiad: Safbwyntiau'r awduron sy'n cael eu mynegi yn y cyhoeddiad hwn, nid Ymchwil
Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac
awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau.

Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a derbynioldeb canolfannau llawfeddygol wrth gefnogi gweithgaredd gofal wedi'i gynllunio.

ADRODDIAD LLAWN

CRYNODEB GWEITHREDOL

Beth yw adolygiad cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth i hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon tra'n rhoi sylw i ragfarn. Maent yn dilyn yr argymhellion methodolegol a'r safonau gofynnol ar gyfer cynnal ac adrodd ar adolygiadau cyflym, gan gynnwys protocol strwythuredig, chwilio systematig, sgrinio, echdynnu data, arfarnu beirniadol, a chyfuno dystiolaeth i ateb cwestiwn penodol a nodi bylchau ymchwil allweddol. Maent yn cymryd rhwng mis a dau fis, yn dibynnu ar ehangder a chymhlethdod y pwnc ymchwil/cwestiwn (au), maint y sylfaen dystiolaeth, a'r math o ddadansoddiad sy'n ofynnol ar gyfer synthesis.

Ar gyfer pwy mae'r crynodeb hwn?

Coleg Brenhinol y Llawfeddygon Caeredin ac Is-adran Cyflawni a Pherfformiad Llywodraeth Cymru.

Cefndir/Nod yr Adolygiad Cyflym

Gwaethygodd pandemig COVID-19 yr amharu ar wasanaethau gofal dewisol yn y DU ymhellach, gan arwain at arosiadau hirach am driniaeth ac ôl-groniad cynyddol ar gyfer llawdriniaethau dewisol. **Mae canolfannau llawfeddygol yn elfen allweddol o strategaeth adfer triniaethau dewisol ar gyfer y GIG a gallant chwarae rhan hanfodol wrth leihau'r ôl-groniad gofal dewisol.** Nod y canolfannau hyn yw cynyddu capasiti llawfeddygol trwy ddarparu mynediad cyflymach at driniaethau, yn ogystal â hwyluso rheoli heintiau trwy wahanu cleifion a staff oddi wrth ofal brys. Nod yr adolygiad cyflym hwn oedd **asesu effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a derbynioldeb canolfannau llawfeddygol** wrth gefnogi gweithgarwch gofal wedi'i gynllunio, er mwyn llywio gweithrediad y canolfannau hyn yng Nghymru.

Prif Ganfyddiadau

Maint y sylfaen dystiolaeth

- Nodwyd **12 astudiaeth gynradd**: chwe lled-arbrofol, dwy garfan a phedair cyfres o achosion. Defnyddiodd wyth o'r rhain **ddulliau ymchwil cymharol**.
- Cynhaliwyd astudiaethau yn y DU (n = 7), yr Iseldiroedd (n = 3), a'r Eidal (n = 2).
- **Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r astudiaethau yn ystod pandemig COVID-19** (n = 7) a disgrifiwyd hybiau llawfeddygol a gynlluniwyd yn bennaf i liniaru trosglwyddo'r coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).
- Ymhlith y canolfannau llawfeddygol a adroddwyd mewn astudiaethau roedd **canolfannau sy'n rhydd o COVID-19 (n = 5), Canolfannau Triniaeth Annibynnol (n = 3), Canolfannau Triniaeth y Sector Annibynnol (n = 2), ac Unedau Llawdriniaeth Ddewisol Amddiffynnol (n = 2).**

- Nid oedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau'n **disgrifio canolfannau llawfeddygol yn seiliedig ar eu strwythur**, h.y. canolfannau annibynnol, integredig neu wedi'u neilltuo.
- Roedd y mesurau canlyniadau a adroddwyd yn cynnwys **canlyniadau clinigol, perfformiad, economaidd, a chanlyniadau a adroddwyd gan gleifion** ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau llawfeddygol gwahanol.

Diweddarwch y sylfaen dystiolaeth

- Roedd yr adolygiad yn nodi tystiolaeth a oedd ar gael hyd at Ionawr 2023. Cyhoeddwyd yr astudiaethau a gafodd eu cynnwys rhwng 2015 a 2022.

Tystiolaeth o effeithiolrwydd

- Gall canolfannau llawfeddygol fod yn effeithiol wrth wella canlyniadau clinigol megis hyd arhosiad yn yr ysbyty, cymhlethdodau yn ystod llawdriniaeth ac ar ôl llawdriniaeth, a mesurau ansawdd llawdriniaeth cataract mewn rhai meysydd llawfeddygol. Fodd bynnag, **mae'r dystiolaeth yn heterogenaidd ac yn gyfyngedig**.
- Mae tystiolaeth ar effaith canolfannau llawfeddygol ar ganlyniadau perfformiad megis effeithlonrwydd, defnydd, nifer y llawdriniaethau/triniaethau, perfformiad, achosion o ganslo, ac amser rhwng diagnosis a thriniaeth yn gyfyngedig.
- Mae tystiolaeth yn ymwneud ag effaith economaidd canolfannau llawfeddygol yn gyfyngedig.
- Mae tystiolaeth yn ymwneud ag effaith canolfannau llawfeddygol ar ganlyniadau a adroddir gan gleifion yn gyfyngedig ond mae'n dangos y **gallai fod effaith gadarnhaol ar foddhad a chydymffurfedd cleifion**.

Tystiolaeth o'r ansawdd gorau

- Roedd gan bob astudiaeth gyfyngiadau methodolegol. Defnyddiodd lawer ddulliau gwan nad ydynt efallai'n briodol ar gyfer dod i gasgliad ar eu heffeithiolrwydd, ac felly dim ond astudiaethau cymharol yr ydym wedi'u dadansoddi wrth werthuso canlyniadau effeithiolrwydd.

Goblygiadau Polisi ac Ymchwil

- Mae'r adroddiad hwn wedi rhoi mewnwelediad i sut roedd canolfannau llawfeddygol yn darparu gwasanaethau mewn meysydd llawfeddygol penodol. Gall hyn fod yn **ddefnyddiol wrth gynllunio ymchwil neu wasanaethau i gynorthwyo gydag adferiad gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio** yn y DU.
- O ystyried y prinder tystiolaeth gadarn, mae angen rhagor o ymchwil gymharol o ansawdd uwch wedi'i gynllunio'n dda o'r DU a gwledydd tebyg er mwyn deall effeithiolrwydd canolfannau llawfeddygol yng Nghymru yn well.

Cryfder y Dystiolaeth

Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a nodwyd yn deillio o astudiaethau gyda methodolegau gwan ac roedd cryn amrywiaeth yn y mathau o ganolfannau llawfeddygol a adroddwyd. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli canfyddiadau'r adolygiad hwn.

Darllenwch yr adroddiad llaw